

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 12 Mawrth, 2020 am 19.00**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Alun Thomas

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd David K Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Cyngor Gwynedd:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyngor. Myfanwy Jones, Wyn Bowen Harris, Jên Morris a Margaret Fernley.

3. Cae chwarae Tal y Bont

Dim cynrychiolydd o'r grŵp ar gael i fynychu'r cyfarfod.

Trafodwyd dosbarthu taflenni i drigolion Tal y Bont i'w gwneud yn ymwybodol mai'r Cyngor Cymuned sydd nawr yn gyfrifol am y safle. Soniwyd hefyd am i'r Cyngor gyfarfod ar y safle cyn ein cyfarfod mis Mai.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2020 yn ddarostyngedig i Eitem 7 – Prysor Williams o Brifysgol Bangor nid Peredur Williams.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Diffibriliwr –Y sesiwn hyfforddiant wedi ei gynnal 2il o Fawrth am 6yh yn Festri Bethlehem, Talybont. Diolch i Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn am yr hyfforddiant defnyddiol.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Llifogydd Tan Lôn – angen trefnu cyfarfod ar y safle gyda Stad Penrhyn, swyddogion Cyngor Gwynedd a cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned.

Wal Maes y Groes – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Lôn Goed ac Allt Ty'n Hendre – angen y lori i lanhau'r dail a mwd. Y lleoliad ar y rhestr i gael sylw gan yr ysgubwr.

Lôn Goed – cylfat diffygiol yn gwaelod y ffordd. Dŵr yn casglu ar y lôn pan mae wedi bod yn bwrw. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Lôn Ddŵr, Talybont - problem gyda tanc septig yn gollwng ar hyd y ffordd ac yn drewi. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd a Dŵr Cymru. Angen cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Lôn Bryn – bwlch yn y ffôs felly y dŵr yn y ffordd. Gwaith wedi ei gwblhau.

Rali 7fed Rhagfyr – y Cyngor yn anhapus iawn gyda'r ymateb. Angen ymateb bod dim swyddogion diogelwch ar y ffordd, dim arwyddion a llawer o'r cymdogion heb gael eu hysbysu o'r digwyddiad.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Dim taliadau i'w gwneud.

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – e-bost gan Un Llais Cymru ynglŷn a aelodaeth blynyddol. Penderfynwyd peidio ymaelodi am flwyddyn yma, ond i'w ystyried eto flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd – e-bost gan Eisteddfod Gadeiriol Ryngwladol Llangollen – cais am rodd. Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn cyfrannu.

Cyflwynwyd – e-bost gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021. Targed drafft ar gyfer Llanllechid - £1000. Penderfynwyd holi Cyngor Cymuned Bethesda am gyd-weithio.

Cyflwynwyd – e-bost gan Partneriaeth Natur Lleol Cymru – ynglŷn a digwyddiadau gweminarau helpu byd natur i weithio dros eich cymuned. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd – e-bost gan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Cynhadledd Adborth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 – 31 Mawrth 2020 yn Llandudno. Y Clerc am fynychu.

Cyflwynwyd – e-bost gan Hosbis Dewi Sant – cais am rodd. Penderfynwyd anfon £100.

Cyflwynwyd – e-bost gan Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw – cais am rodd. Penderfynwyd anfon £100.

Cyflwynwyd – e-bost gan Mr G Edwards gyda'i bryderon am y beiciau modur ar y mynydd ger Rachub. Y Clerc i ymateb ein bod yn rhannu ei bryderon ac am dynnu sylw'r Heddlu, y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'r mater.

Cyflwynwyd – e-bost gan Gethin Evans o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol – ynglŷn a'r 'Peatland Code' – ffarmio'r mewndir. Penderfynwyd byddai'n ddefnyddiol cael sgwrs rhwng yr Is-bwyllgor Mynydd, y Porwyr a Gethin Evans.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Noson hyfforddiant defib – pawb wedi mwynhau a gweld gwerth yn y sesiwn.

Cyngor Gwynedd YGC – prosiect llifogydd – cyfarfod i drafod eu prosiect atal-llifogydd o amgylch y dyffryn yn Gorffwysfan Bethesda, ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Bethesda a Llandygai.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

C19/1021/16/LL

Hartwell, 1 Bythynnod, Tal y bont, Bangor

Disodli tô gwastad gyda crib ynghyd ac estyniad i greu porth

Penderfyniad: Ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Gwrthwynebu, oni bai bod na achos diogelwch.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond rhestr o bryderon/sylwadau

- Mwy na hanner y tai angen bod yn rhai fforddiadwy
- Angen ystyried yr effaith ar Ysgol Llanllechid
- Angen llwybrau cerdded diogel
- Angen ymestyn y palmant presennol a'r Llwyn Bleddyn o'r fynwent i lawr at Bryn Bella
- Effaith trafndiaeth ychwanegol
- Y llwybr cyhoeddus sydd ar y safle angen ei ddiogelu
- Plannu coed cynhenid ar y safle
- Cadw enw'r safle – sef Cae Rhosydd
- Llygredd sŵn a gwledol
- Angen ffordd mynediad newydd i Ysgol Llanllechid
- Yr effaith ar y Feddygfa leol

10. Materion Brys

Wern Bach – twll yn y ffordd. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi am ddiweddariad.

Plas Maes y Groes – coeden a gwreiddiau yn gwthio'r wal allan am y ffordd.

Diolch i Cyngor Gwynedd - am y gwaith tu ôl i Glan Bethlehem ac hefyd Lôn Bryn. Y Clerc i anfon ein diolch at y Prif Weithredwr.

Clwb Rygbi Bangor – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffic ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc i lythyru Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.

Cae pêl-droed a chwarae – angen cael prisiau am dorri'r gwair cyn gynted a bo modd. Hefyd penderfynwyd codi cyflog y contractwr presennol am ei waith torri gwair yn yr ardal.